# Pecyn Cais 6

# Sut mae gwneud cais i Gaffael Carthffos Gyhoeddus a/neu Ddraen Ochrol

## Nodiadau Canllaw

**Mae darpariaethau Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 (WIA91) yn rhagori ar y nodiadau hyn. Cyfeiriwch at WIA91 i gael manylion llawnach am hyn ac am wasanaethau eraill.**

***Rydyn ni'n argymell eich bod chi'n darllen y nodiadau canllaw cyn gwneud cais.***

**Nodyn: Lle defnyddir y term 'carthffos' yn y ddogfen hon, oni nodir yn benodol fel arall, mae hyn yn cynnwys carthffosydd a draeniau ochrol.**

**Rhoddir esboniad o'r termau a ddefnyddir yn y Pecyn Cais yn y Rhestr Geirfa sydd ar ein gwefan**

### 1. Cyflwyniad

Fel yr ymgymerydd carthffosiaeth statudol, o dan Adrannau 98 - 101 o WIA91 mae dyletswydd arnom i gydymffurfio â Hysbysiad caffael a gyflwynir i ni i ddarparu carthffos gyhoeddus/draen ochrol a/neu'r cyfarpar cysylltiedig, sy'n angenrheidiol at ddibenion draenio carthion domestig yn unig.

Mae yna ddau brif reswm dros ymarfer yr hawliau i gyflwyno Hysbysiad. Y cyntaf yw lle bo'r person/pobl am i ni osod carthffosydd ar dir preifat (gyda ni'n cyflwyno Hysbysiad o dan Adran 159 (WIA91)) fel y gellir creu cysylltiad â charthffos gyhoeddus gyfredol; yr ail yw lle bo angen atgyfnerthu'r rhwydwaith carthffosiaeth cyfredol yn sgil darparu'r garthffos/draen ochrol newydd er mwyn sicrhau bod gan y datblygiad, a'r ardal leol, system garthffosiaeth effeithiol (Adran 94 WIA91).

Ni cheir caffael carthffos gyhoeddus i wasanaethu eiddo cyfredol sydd eisoes yn gysylltiedig â'r system garthffosiaeth gyhoeddus. Fodd bynnag, os yw eich eiddo'n gysylltiedig â system breifat, gan gynnwys tanc septig neu garthbwll, a bod y system breifat yna'n cael effaith andwyol ar yr amgylchedd, gallwch gyflwyno cais i ni i ofyn i ni ddarparu carthffos neu ddraen ochrol o dan ddarpariaethau Adran 101 WIA91. Os felly, dylech gysylltu â ni yn y cyfeiriad a nodir yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

Dŵr Cymru
Welsh Water

Byddwn ni'n rheoli'r broses gaffael fesul cam, fel a bennir yn Adran 3 o'r nodiadau hyn. Byddwn ni'n dylunio, yn adeiladu ac yn comisiynu'r garthffos/draen ochrol ynghyd ag unrhyw gyfarpar cysylltiedig arall.

O dan ddarpariaethau WIA91, mae hawl gennym adfer y costau a dynnir wrth ddarparu'r garthffos a/neu'r draen ochrol o dan sylw. Mae hyn yn cynnwys, ymysg pethau eraill, costau rhesymol dylunio, llafur, peiriannau, deunyddiau, adfer, prynu tir (os yw'n berthnasol), iawndal, a phrofi ansawdd, archwilio, goruchwylio, gweinyddu a gorbenion.

Byddwn ni'n gofyn am warant resymol sy'n gyson â'n Polisi Diogelwch Ariannol yn hynny o beth.

Lle'r ydych yn caffael, mae Adran 100(4)(a) o WIA91 yn caniatáu i daliadau caffael gynnwys unrhyw gostau rhesymol a dynnir wrth ddarparu unrhyw garthffosydd cyhoeddus a gorsafoedd pwmpio ac ati eraill y mae angen eu darparu o ganlyniad i ddarparu'r garthffos newydd. Gelwir y taliadau hyn yn daliadau ategu'r rhwydwaith fel rheol.

Yn ogystal, o dan adran 100(4)(b) o WIA91, yn ogystal â'r costau ar gyfer y garthffos newydd, gallwn godi cyfran resymol o'r costau a dynnwyd wrth ddarparu capasiti ychwanegol yn y rhwydwaith carthffosiaeth berthnasol o dan gaffaeliad blaenorol o fewn y 12 mlynedd blaenorol ar y caffaeliwr hefyd.

Er na all gwelliannau i Weithfeydd Trin Dŵr Gwastraff fod yn rhan o gaffaeliad; gallwn ystyried cychwyn cytundeb masnachol â chi am ddarparu capasiti mewn gweithfeydd trin dŵr gwastraff.

## 2. Gofynion Cyffredinol

Er mwyn cyflwyno cais, rhaid llenwi'r Ffurflen Gais sy'n rhan o'r Pecyn hwn, sy'n cynnwys yr Hysbysiad ffurfiol yn unol ag Adrannau 98-101 o WIA91. Mae'r Hysbysiad yn cadarnhau y byddwch chi'n talu ein costau mewn perthynas â'r caffaeliad hefyd.

Bydd dewis o ddau fecanwaith talu ar gael i'r Caffaeliwr sy'n gofyn am ddarparu carthffos gyhoeddus, naill ai'r Opsiwn Diffyg Perthnasol (neu'r Opsiwn Cytundeb i Dalu Swm Blynyddol Gwarantedig) neu'r Opsiwn Cyfanswm Diffyg â Disgownt (a elwir yn Opsiwn Swm Cyfnewid neu DAD). Rhoddir esboniad o'r rhain yn nes ymlaen yng Ngham D (Cynnig a Derbyn).

Dylid nodi, nad yw'r ddau opsiwn talu yma'n berthnasol i gaffael draeniau ochrol, codir tâl am hyn ar sail y gwir gost.

Mae'n ofynnol i ni ddarparu'r garthffos a/neu'r draen ochrol a gaffaelir cyn pen 6 mis ar ôl y dyddiad pan fydd pob barti'n llenwi ac yn llofnodi'r cytundeb caffael (a thalu'r swm cyfnewid yn ei gyfanrwydd lle dewisir yr opsiwn DAD). Y diwrnod yma yw'r Diwrnod Perthnasol. Byddwn ni'n eich hysbysu os oes angen cyfnod o dros 6 mis, a gellir ymestyn y cyfnod hwn gyda chydsyniad y partïon perthnasol.

Bydd cyfnodau o Rybudd Statudol yn gweithredu lle bo gofyn i ni osod carthffosydd/draeniau ochrol mewn priffyrdd neu ar dir preifat, a chaiff y cyfnodau hyn eu cynnwys yn ein hamcangyfrif o'r rhaglen waith.

Ar ôl i'r garthffos/draen ochrol a gaffaelir gael ei adeiladu a'i ch/gomisiynu, caiff y garthffos gyhoeddus /draen ochrol ac unrhyw asedau eu breinio ynom ni'n awtomataidd. Ni fydd yn gyfrifol am eu gweithredu a'u cynnal o hynny ymlaen.

Bydd angen i chi gyflwyno cais ar wahân am gysylltiad uniongyrchol neu anuniongyrchol â'r garthffos/draen newydd a gaffaeliwyd gan ddefnyddio Pecyn Cais 5 - 'C*ysylltu â Charthfos Gyhoeddus/Draen Ochrol*', a bydd taliadau eraill yn berthnasol i hynny.

Lle'r ydym ni'n cynnig adeiladu carthffosydd ar dir sy'n eiddo i drydydd parti, byddwn ni'n caffael yr hawliau i gyrchu, cynnal a thrwsio'r carthffosydd yna. Yn achos asedau heblaw carthffosydd, (e.e. gorsafoedd pwmpio, tanciau gwanhau ac ati) byddwn ni'n caffael perchnogaeth dros y tir lle mae'r asedau hefyd.

Yn achos carthffos dŵr wyneb neu orlif brys o orsaf bwmpio, mae angen caniatâd i ryddhau i gwrs dŵr. Mae angen cael caniatâd rhyddhau gan Asiantaeth yr Amgylchedd os ystyrir bod y cwrs dŵr yn "brif afon", neu, os nad yw'r "brif afon", gan yr Awdurdod Draenio Tir, ynghyd ag unrhyw ganiatâd(au) ar wahân gan berchnogion glannau'r dŵr. Argymhellir eich bod chi'n cael y caniatâd yma cyn bwrw ymlaen â'r caffaeliad.

Nid oes pwerau statudol gennym i gyflwyno hysbysiadau mynediad i rai mathau o dirberchnogion e.e. Tir y Goron, a gallai hynny achosi oedi.

**3. Y Broses Gaffael**

Mae chwe cham i’r broses o gaffael carthffosydd, sef:-

Cam A - Cyflwyno’ch Cais
Cam B - Paratoi Ateb Amlinellol i’r Cynllun (OSS)
Cam C - Paratoi Ateb Manwl i’r Cynllun (DSS)
Cam D - Cynnig a Derbyn
Cam E - Adeiladu
Cam F - Talu’r Cyflog Terfynol

Byddwn ni’n rheoli pob un o’r camau uchod ac ar ddiwedd pob cam, byddwn ni’n trafod yr argymhellion â chi ac yn cytuno ar y ffordd ymlaen. Os na fyddwch chi’n bwrw ymlaen â’r cynllun cyn pen 3 mis ar ôl gorffen unrhyw gam rhwng A a D, caiff y cais ei archifo a bydd gofyn i chi dalu’r holl gostau rydym wedi eu tynnu hyd at y dyddiad hwnnw.

Os byddwch chi’n adfywio’r un cynllun ar ôl ei archifo, gallech dynnu costau ychwanegol gennym am adolygu ac uwchraddio’r cynllun.

Cewch derfynu’r broses unrhyw bryd rhwng camau A a D oni bai eich bod chi wedi derbyn y cynnig yn ffurfiol yn ystod Cam D.

**Cam A - Cyflwyno’ch Cais**

Mae’r broses gaffael yn dechrau wrth i chi ein Hysbysu ni fod angen carthffos gyhoeddus a/neu ddraen ochrol arnoch. Rhaid gwneud hyn trwy gyflwyno Hysbysiad Caffael, sy’n rhan o’r ffurflen gais, naill ai trwy ei anfon atom ar lein neu drwy’r post.

Cyn cyflwyno hysbysiad, rhaid i chi sicrhau nad oes yna garthffos gyhoeddus addas eisoes. Mae ein map o garthffosydd cyhoeddus yn cofnodi’r carthffosydd cyhoeddus hysbys, ond mae’n bosibl na fydd rhai carthfosydd cyhoeddus a draeniau wedi eu cofnodi yn y map o garthfosydd cyhoeddus am eu bod wedi bod mewn perchnogaeth breifat yn wreiddiol, ond wedi cael eu trosglwyddo i berchnogaeth gyhoeddus trwy Ddeddf Seneddol neu Reoliad Statudol yn ddiweddarach. Gallai presenoldeb asedau o’r fath effeithio ar eich cynigion a gallwch ein helpu ni i ddelio â’ch cynigion trwy glustnodi unrhyw garthffosydd rydych chi’n ymwybodol ohonynt ac nad ydynt i’w gweld ar y cofnod o garthffosydd cyhoeddus. Gallwn eich cynorthwyo chi i gasglu’r wybodaeth angenrheidiol, ond mae’n bosibl y bydd tâl am y gwasanaeth yma.

Gallwn ofyn i chi ddarparu’r wybodaeth ganlynol:

- Ffurflen gais gyflawn (sydd ar gael i'w llenwi ar lein neu ar ffurf y gellir ei lawrlwytho o'n gwefan).
- Tystiolaeth o'ch perchnogaethr, deiliadaeth gyfreithiol neu'r opsiwn i brynu'r tir.
- Ar gyfer caffaeliadau dŵr wyneb, y gyfradd ryddhau a ddisgwylir o'r datblygiad.
- Caniatâd rhyddhau gan berchnogion glannau afonydd, Awdurdodau Draenio Tir ac Asiantaeth yr Amgylchedd fel y bo'n berthnasol.
- Plan o'r Lleoliad sy'n dangos ffin y safle, ac yn dangos y datblygiad yn glir (graddfa 1:1250).
- Gosodiad y Safle gan gynnwys y trefniadau draenio o fewn y safle (graddfa 1:500 - yn electronig ar fformat CAD yn ddelfrydol).
- Talu'r blaendal na ellir ei ad-dalu, sef swm o £2,400 (sy'n cynnwys TAW). Bydd y taliad yma'n ariannu'r gwaith o weinyddu'ch cais a pharatoi cynnig yr OSS.

Yn ogystal, gofynnwn i chi ddarparu'r canlynol os ydynt ar gael:

- Plan o'r safle sy'n dangos y pwynt y bwriedir adeiladu'r gwaith o dan sylw ohono ac iddo
- Y Cais Cynllunio
- Caniatâd Cynllunio, gan gynnwys unrhyw amodau
- Arolwg o'r Safle
- Darlun o Wasanaethau'r Cyfleustodau

Bydd y wybodaeth yma'n ein cynorthwyo ni i gyflawni asesiad cychwynnol a rhoi amcangyfrif o gost y cynnig. Rhaid nodi na fydd unrhyw waith adeiladu'n dechrau ar y garthffos a gaffaeliwyd nes bod y Cais Cynllunio a'r Caniatâd Cynllunio, gan gynnwys yr amodau, wedi dod i law.

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch, cysylltwch â ni yn:

Dŵr Cymru Welsh Water
Gwasanaethau Datblygu
Blwch SB 3146
Caerdydd
CF30 0EH
Ffôn: +44 (0)08009172652
Ffacs: +44 (0)2920740472
Ebost: - developer.services@dwrcymru.com

Ar ôl i'r ffurflen gais, unrhyw wybodaeth ategol a blaendal na ellir ei ad-dalu ddod i law, byddwn ni'n dilysu'r dogfennau ac yn cysylltu â chi os oes angen rhagor o fanylion.

Bydd Cam A yn cynnwys cyfarfod cychwynnol â chi. Yn y cyfarfod yma, byddwn ni'n esbonio'r broses gaffael, yn trafod manylion eich cynllun, yn gofyn am unrhyw wybodaeth angenrheidiol, ac yn paratoi'r cynnig ar gyfer yr OSS er mwyn symud ymlaen i Gam B. Bydd y cynnig ar gyfer cam yr OSS yn cynnwys darparu cwmpas amlinellol o'r hyn rydyn ni'n ei gynnig, y gost, a rhaglen ar gyfer cwblhau'r OSS.

Er mwyn bwrw ymlaen â'r OSS, dylech anfon taliad am y gost a amlinellwyd yn y cynnig, ynghyd ag unrhyw wybodaeth a geisiwyd. Codir TAW ar y gyfradd safonol ar y taliad hwn, a gallwch dalu'r blaendal o'r fron ar lein trwy ein system ffôn, neu ar ffurf siec.

**Cam B - Ateb Amlinellol i'r Cynllun (OSS)**

Pwrpas yr OSS yw casglu ac adolygu gwybodaeth i'n galluogi ni i baratoi atebion posibl, a lle bo'r rhain ar gael, argymell yr ateb dethol i fwrw ymlaen ag ef i'r dyluniad manwl.

Ymysg pethau eraill, gall cam yr OSS gynnwys y gweithgareddau canlynol:

- Casglu ac adolygu data
- Opsiynau ar gyfer atebion i'r cynllun
- Arolygon cychwynnol ac arbenigol
- Modelu hydrolig er mwyn sicrhau ein bod ni'n darparu'r ateb mwyaf effeithlon
- Ymgynghori â rhanddeiliaid (e.e. Awdurdodau Lleol, Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac ati).

Daw Cam B i ben â chyfarfod gyda chi. Yn y cyfarfod yma, byddwn ni'n trafod Adroddiad yr Ateb Amlinellol i'r Cynllun, a fydd yn cynnwys manylion yr opsiynau a argymhellir ar gyfer y cynllun, ac amcangyfrif "lefel uchel" o'r gyllideb ar gyfer cyfanswm costau'r gwahanol opsiynau yma. Gellir darparu syniad o'r swm blynyddol gwarantedig a'r swm cyfnewid ar gais hefyd.

Ar ôl cydsynio i'r ateb, byddwn ni'n darparu cynnig y DSS er mwyn symud ymlaen i Gam C, a fydd yn cynnwys amcangyfrif o'r gost a rhaglen ar gyfer cwblhau'r DSS. Er mwyn bwrw ymlaen â'r DSS, dylech anfon taliad am y gost a amlinellir yn y cynnig ar gyfer y DSS.

**Cam C - Ateb Manwl i'r Cynllun (DSS)**

Pwrpas y DSS yw cyflawni dyluniad manwl y cynllun, ac ar ôl ei gwblhau, paratoi amcangyfrif o gost y cynllun.

Ymysg pethau eraill, gall cam y DSS gynnwys y gweithgareddau canlynol:

- Casglu data ychwanegol
- Arolygon manwl ac arbenigol
- Casglu gwybodaeth fanwl gan gwmnïau eraill gan gynnwys cwmnïau'r cyfleustodau
- Ymholiadau am berchnogaeth y tir
- Ymgeisio am a chaffael unrhyw ganiatâd sy'n angenrheidiol

Ar ôl cwblhau'r cam yma, byddwn ni'n cyfarfod â chi ac yn darparu adroddiad dylunio manwl ar eich cyfer a fydd yn cynnwys rhaglen ac amcangyfrif o gyfanswm cost y cynllun. Dyma fydd y sail ar gyfer eich cynnig caffael. Byddwch eisoes wedi cyflwyno rhaglen adeiladu yn rhan o'r cais er mwyn rhannu gwybodaeth gyfredol am y datblygiad, mae hyn yn angenrheidiol ar gyfer y cynnig caffael.

**Cam D - Cynnig a Derbyn**

Mae WIA91 yn pennu'r gwahanol drefniadau talu ar gyfer carthffosydd cyhoeddus a draeniau ymyl a gaffaelir fel y disgrifir yma.

<u>Caffael Carthffos Gyhoeddus</u>
Byddwn ni'n adolygu ac yn asesu'r wybodaeth rydych chi wedi ei darparu ac yn anfon llythyr cynnig atoch lle byddwn ni'n manylu ar y 2 opsiwn ariannu sydd ar gael yn unol â WIA91, a symiau ariannol y ddau.

Dyma'r 2 opsiwn ariannu:

1) Yr Opsiwn Diffyg Perthnasol (Cytundeb y Swm Blynyddol Gwarantedig):

   Gyda'r opsiwn yma, ac yn seiliedig ar amcangyfrif o gost y cynllun, gallwn gyfrifo'r swm blynyddol gwarantedig sy'n gyfartal â'r swm y mae angen i ni ei dderbyn bob blwyddyn am 12 mlynedd er mwyn adfer y costau cyfalaf a chostau blynyddol y benthyciad y mae ei angen ei godi er mwyn darparu'r garthffos. Fel rheol, bydd y cyfnod o 12 mlynedd yn dechrau ar ddyddiad comisiynu'r garthffos.

Dŵr Cymru
Welsh Water

Caiff cytundeb cyfreithiol ei baratoi lle byddwch chi'n cytuno i dalu unrhyw ddiffyg rhwng y swm blynyddol gwarantedig a'r refeniw a geir o'r taliadau draenio perthnasol o'r datblygiad yn y flwyddyn o dan sylw i ni yn flynyddol am gyfnod o 12 mlynedd. Daw unrhyw ddiffyg yn ddyledus i ni gennych chi. Yn ogystal, bydd gofyn i chi ddarparu bond sy'n gyson â'n Polisi Gwarantau Ariannol. Os na fyddwch chi'n talu swm y diffyg yn unrhyw un o'r 12 mlynedd, byddwn ni'n defnyddio'r bond i ad-dalu'r swm o dan sylw. Rhaid i ddarparydd y bond gydymffurfio â lleiafswm y gofyniad sydd mewn grym ar ddyddiad y caffaeliad. Chi fydd yn gyfrifol am dalu'r costau sy'n gysylltiedig â sefydlu'r cytundeb cyfreithiol.

Adeg cwblhau'r cytundeb, caiff unrhyw daliadau a wnaed ers cyflwyno'r hysbysiad caffael/cais ffurfiol eu had-dalu i chi. Nes bod y ddau barti wedi llofnodi'r cytundeb, ni allwn ddarparu Hysbysiadau mynediad i dir na dechrau'r cynllun.

Caiff union gostau'r cynllun eu cyfrifo tua 3 mis ar ôl i'r garthffos gael ei chomisiynu. Cyfrifir Swm Blynyddol Gwarantedig diwygiedig yn seiliedig ar wir gostau'r cynllun, a bydd hyn yn gofyn am ddiwygio'r swm blynyddol gwarantedig.

Ar ôl i'r cyfnod o 12 mlynedd ddod i ben, neu pan fydd y refeniw a geir o'r taliadau draenio perthnasol yn rhagori ar gyfanswm y swm gwarantedig am y cyfnod o 12 mlynedd, byddwn ni'n cadarnhau bod y Cytundeb wedi dod i ben, a gellir canslo'r bond.

2) Yr Opsiwn Diffyg Cyfanredol â Disgownt (DAD)

Swm cyfnewid sy'n daladwy gennych chi yw Cyfanswm Cyfanredol y Diffyg â Disgownt, a chaiff ei gyfrifo trwy ystyried a gwrthbwyso'r incwm y byddwn yr amcangyfrifir y byddwn yn ei dderbyn o'r datblygiad yn y dyfodol ar ffurf taliadau draenio dros gyfnod o 12 mlynedd yn seiliedig ar ddeiliadaeth, yn erbyn cyfanswm cost darparu'r cynllun gan gynnwys unrhyw daliadau ariannu/llog (e.e ar fenthyciad a godwyd i ddarparu'r cynllun). Nid oes angen bond gyda'r opsiwn yma. Fel rheol, bydd y cyfnod o 12 mlynedd yn dechrau ar ddyddiad comisiynu'r garthffos.

Gyda'r opsiwn yma, caiff cytundeb ei baratoi lle'r ydych chi'n cytuno i ad-dalu gwerth y swm cyfnewid, sy'n cael ei ail-gyfrifo ar ôl cwblhau'r cynllun, i ni. Caiff hyn ei gyflawni mewn dwy ran fel a nodir isod.

- Yn y rhan gyntaf, caiff y swm cyfnewid ei gyfrifo'n seiliedig ar amcangyfrif o gyfanswm cost y cynllun a'r incwm wedi ei asesu ar sail y taliadau draenio perthnasol y byddwn ni'n eu derbyn o'r datblygiad yn seiliedig ar lefelau meddiannaeth y dyfodol dros gyfnod o 12 mlynedd. Mae'r swm yma'n daladwy cyn dechrau'r cynllun, ac mae'n cwblhau'r cytundeb sy'n ein galluogi ni i gyflwyno Hysbysiadau perthnasol, cael trwyddedau, a dechrau'r gwaith adeiladu. Caiff unrhyw daliadau a wnaed ers cyflwyno'r Hysbysiad caffael ffurfiol eu cymryd i ystyriaeth yn y cam yma.

- Yn yr ail ran, caiff y swm cyfnewid ei ail-gyfrifo'n seiliedig ar wir gostau'r cynllun ac ailasesiad o'r incwm o'r datblygiad. Caiff yr ymarfer hwn ei gyflawni tua 3 mis ar ôl cwblhau'r gwaith o adeiladu'r garthffos, ac mae'n bosibl felly y bydd taliad pellach i ni, neu ad-daliad i chi, yn ddyledus yn sgil hynny.

<u>Caffael Draen Ochrol</u>

Nid yw'r ddau opsiwn ariannu sydd ar gael ar gyfer caffael carthffosydd cyhoeddus ar gael ar gyfer caffael draeniau ochrol. Yn achos draeniau ochrol, caiff cytundeb ei baratoi cyn dechrau'r cynllun lle byddwch chi'n cytuno i dalu'r warant angenrheidiol i ni, ac ad-dalu'r gwir gostau a dynnwyd i ni ar ôl darparu'r draen ochrol. Bydd darparu'r warant angenrheidiol yn cwblhau'r cytundeb ac yn ein galluogi ni i gyhoeddi Hysbysiadau (os oes angen) a dechrau'r cynllun.

**Cam E - Adeiladu**

Ar ôl i'r ddau barti lofnodi'r cytundeb, byddwn ni'n bwrw ymlaen â'r gwaith adeiladu, neu lle bo angen, yn cyhoeddi unrhyw Hysbysiadau perthnasol.

Bydd dechrau'r gwaith ar y safle'n amodol ar:

a) Gyflwyno hysbysiad i berchennog/perchnogion tir er mwyn mynd i dir preifat
b) Cael caniatâd yr Awdurdod Priffyrdd i weithio yn y briffordd gyhoeddus
c) Amserau paratoi

Dylech sicrhau bod yna ddarpariaeth ddigonol yn eich rhaglen i ni ddelio â'r materion hyn

Byddwn ni'n rhoi gwybod i chi am unrhyw newidiadau o bwys o ran y gost neu'r rhaglen wrth i'r cynllun fynd yn ei flaen. Ar ddiwedd y cyfnod adeiladu, byddwn ni'n rhoi gwybod i chi pan fydd y garthffos wedi cael ei chomisiynu ac yn barod i'w defnyddio.

Bydd angen i chi gyflwyno cais ar wahân i gysylltu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â'r garthffos/draen a gaffaeliwyd gan ddefnyddio Pecyn Cais 5 - *Cysylltu â Charthfos Gyhoeddus/Draen Ochrol*, a bydd taliadau eraill yn berthnasol i hynny.

**Cam F - Cyfrif Terfynol**

Tua 3 mis ar ôl comisiynu'r garthffos/draen, byddwn ni'n cyfrifo gwir gostau'r cynllun ac yn ail-gyfrifo elfen ariannol eich opsiwn dethol.

Os ydyn i wedi cyflwyno Hysbysiadau mynediad i dir i berchnogion tir preifat yn rhan o'r broses gaffael, dylid nodi bod gan berchnogion tir hyd at 6 blynedd i gyflwyno hawliad am iawndal, a hyd at 10 mlynedd yn achos hawliadau colli gwerth trwy ddatblygiad. Yn unol â hynny, a lle bo'n briodol, byddwn ni'n cynnwys swm dros dro yng ngwir gostau'r cynllun ac yn ei addasu fel y bo angen adeg setlo'r hawliadau.

<u>Caffael Carthffos Gyhoeddus</u>

Os dewiswyd yr opsiwn Diffyg Perthnasol (Cytundeb y Swm Gwarantedig Blynyddol), yna bydd angen diwygio'r swm blynyddol a warentir. Os oes unrhyw TAW yn ddyledus, caiff hyn ei gymryd i ystyriaeth wrth asesu'r gofynion o ran yr Warant.

Os dewiswyd yr opsiwn Diffyg Cyfanredol â Disgownt (swm cyfnewid neu DAD), yna ynghyd â'r gwir gostau, byddwn ni'n cynnwys yr incwm amcanestynedig o'r taliadau draenio perthnasol y byddwn ni'n eu derbyn yn seiliedig ar ailasesiad o lefelau deiliadaeth y datblygiad dros y cyfnod o 12 mlynedd yn y cyfrifiad. Gallai hynny olygu bod angen taliad pellach gennych chi, i ni ad-dalu swm i chi. Yn ogystal, caiff unrhyw daliadau a wnaed ers cyflwyno'r Hysbysiad caffael ffurfiol eu cymryd i ystyriaeth yn y cam yma.

<u>Caffael Draen Ochrol</u>

Bydd angen i chi ein hysbysu ni am ddyddiad gwneud y cysylltiad â'r draen ochrol.

Byddwn ni'n eich anfonebu am y gwir gostau a dynnwyd wrth ddarparu'r draen ochrol, a phan ddaw'r taliad i law, byddwn ni'n rhyddhau unrhyw warant a ddelir.

**TAW**

Yn dibynnu ar natur y prosiect, gellir ychwanegu TAW at yr holl gostau sy'n codi o'r opsiynau Diffyg Perthnasol neu Ddiffyg Cyfanred â Disgownt, neu ran ohonynt.

**Gwaith ategu**

Lle bo'r brif bibell ddŵr a gaffaelir yn gwasanaethu datblygiad domestig hollol newydd, byddwn ni'n gosod y taliadau am waith adeiladu ar gyfradd o sero er mwyn hwyluso'r datblygiad oni bai bod angen uwchraddio'r pibellwaith cyfredol neu asedau eraill (e.e. gorsafoedd pwmpio). Os felly, bydd gofyn i ni godi ein taliadau ar y gyfradd safonol mewn perthynas â'r gwaith peirianegol sy'n cael ei gyflawni i uwchraddio'r asedau sy'n bodoli eisoes.

**Datblygiadau cymysg**

Lle bo datblygiad tai newydd yn cynnwys eiddo nad yw'n gymwys ar gyfer rhyddhad TAW (e.e. lle na fwriedir iddynt fod yn aneddiadau), mae gofyn i ni godi TAW ar y gyfran o'n taliadau sy'n ymwneud â'r eiddo o dan sylw. Fel arfer, lle bo cysylltiad dŵr sylfaenol gan yr eiddo yma, byddwn ni'n priodoli TAW i'n taliadau trwy ddosrannu'r nifer o eiddo annomestig fel cyfran o gyfanswm nifer yr eiddo sy'n gynwysedig yn y datblygiad.